**LGH-12-01 (p.3)**

**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**Y MESUR DIGARTREFEDD – YSTYRIED GOBLYGIADAU'R MESUR DIGARTREFEDD I GYMRU**

**PWRPAS**

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried goblygiadau'r Mesur Digartrefedd i Gymru.

**ARGYMHELLIAD**

2. Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Mesur ac yn cytuno bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud y Gorchymyn Cychwyn cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Mesur gael ei basio.

**AMSERU**

3. Mae'n siwr y bydd y trydydd darlleniad o'r Mesur yn digwydd ym mis Hydref, a disgwylir y bydd yn cael ei basio yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

**CEFNDIR**

4. Ceir darpariaethau yn y Mesur Digartrefedd sy'n ymwneud â strategaethau digartrefedd lleol, a diwygiadau i ddiogelwch statudol pobl ddigartref. Yn ôl y mesur hefyd, ni fyddai bellach yn ofynnol i awdurdodau lleol gadw cofrestrau tai, a byddai'n ofynnol iddynt gynnig dewis o fewn eu cynlluniau tai.
5. Mae'r darpariaethau yn y Mesur yn debyg iawn i'r rheini ar ddigartrefedd yn y Mesur Tai a fethodd yn sgil y diffyg amser seneddol cyn yr etholiad cyffredinol diwethaf. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol eisoes wedi mynegi'i gefnogaeth i'r mesur hwn.
6. Mae'r Mesur eisoes wedi cael ei ystyried yn y pwyllgor Seneddol, a bydd yn cael ei

drydydd darlleniad cyn hir. Mae’r Mesur wedi derbyn cefnogaeth pob plaid, ac mae’n annhebygol y bydd unrhyw ddiwygiadau sylweddol.

**YSTYRIAETH**

Dyma ddarpariaethau allweddol y Mesur:

- Dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i gynnal adolygiadau ar ddigartrefedd ac i ffurfio strategaethau digartrefedd (adrannau 1-3). Bydd gofyn i’r awdurdodau gynnal adolygiadau a chyhoeddi strategaethau o fewn deuddeng mis i’r amser y daw’r ddarpariaeth hon i rym. Rhaid i’r adolygiadau a’r strategaethau geisio mynd i’r afael ag atal digartrefedd, sicrhau bod modd i bobl ddigartref gael llety, a darparu cymorth i bobl sy’n ddigartref neu bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
- Diddymu’r cyfnod o ddwy flynedd, o leiaf, lle y mae’n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu llety ar gyfer pobl ddigartref (a.6)
- Rhoi’r hawl i bobl ddigartref ofyn am adolygiad o addasrwydd llety a gynigir iddynt wrth gyflawni dyletswydd statudol ( a.8).
- Ymestyn y diffiniad statudol o ddigartrefedd er mwyn cynnwys pobl sydd mewn perygl o ddioddef trais o unrhyw fath, a dyletswydd ar awdurdodau lleol i beidio â chyfeirio’r bobl hynny at awdurdodau eraill lle y gallant fod mewn perygl o drais (a.10).
- Diddymu’r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gadw cofrestr dai (a.13(1).
- Diwygio’r meini prawf ar gyfer neilltuo llety, i eithrio pobl sy’n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo. Hefyd, mae gan awdurdodau ber dewisol newydd i beidio ag ystyried ceisiadau ymgeiswyr sydd yn euog o ymddwyn yn annerbyniol (a.13(2)). Bydd dyletswydd ar awdurdodau i hysbysu ymgeiswyr anghymwys o’u penderfyniad a’r rheswm pam y daethpwyd i’r penderfyniad hwnnw.
- Dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i ystyried pob cais am lety; i roi cyngor a gwybodaeth ynghylch yr hawl i wneud cais am lety; ac i roi cymorth angenrheidiol i ymgeiswyr wrth iddynt wneud cais o’r fath (a.14).
- Ei gwneud hi’n ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys datganiad yn eu polisi ynghylch sut y byddant yn rhoi dewis o lety neu sut y byddant yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ddweud pa lety sydd orau ganddynt hwy (a.15(2)).
- Rhai newidiadau i’r categorïau o bobl y dylai awdurdodau lleol roi blaenoriaeth resymol iddynt o fewn eu cynlluniau neilltuo (a.15(3)).
- Daw darpariaethau’r ddeddf i rym yng Nghymru pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn pasio Gorchymyn Cychwyn (a.19).

**10.** Dyma rai o’r prif oblygiadau:

- Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol i lunio strategaethau tai lleol, a fydd yn ategu'r polisi digartrefedd fel y'i disgrifir yn y Strategaeth Dai Genedlaethol ac yn adroddiad y Comisiwn Digartrefedd. Dylai hyn sicrhau bod pob awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau lleol eraill i sefydlu faint o bobl sy'n ddigartref, ac achosion digartrefedd, a chyhoeddi strategaethau sydd â'r nod o atal pobl rhag bod yn ddigartref, i sicrhau bod llety brys ar gael, i alluogi pobl i gael llety parhaol addas, a helpu pobl i gadw'u llety trwy ddarparu cymorth. Drwy'r mesur hwn, dylai fod yn haws gweld yn union faint o bobl sy'n ddigartref a mynd i'r afael â digartrefedd a'r hyn sy'n ei achosi ar y lefel leol. Dylai hyn hefyd helpu'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeall y broblem yn well, ac i gyfeirio adnoddau yn y modd mwyaf effeithiol i ddiwallu anghenion a nodwyd er mwyn cyflawni'n amcanion cenedlaethol.
- Bydd y Mesur yn rhoi mwy o sicrwydd i bobl sy'n statudol ddigartref drwy gael gwared ar y cyfyngiad dwy flynedd ar ddyletswydd awdurdodau lleol.
- Dylai sicrhau bod pobl sy'n gorfod ffoi o'u cartref oherwydd unrhyw fath o drais yn cael eu hystyried fel pobl ddigartref ac na ellir eu cyfeirio yn ôl i ardal lle byddant mewn perygl o drais pellach. Dylai hyn, yn arbennig, fod o fudd i bobl sy'n dioddef trais yn y cartref.
- Bydd gan awdurdodau lleol fwy o hyblygrwydd i ddarparu llety ar gyfer pobl ddigartref nad ydynt yn fater o flaenoriaeth.
- Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol gynnwys elfen o ddewis yn eu cynlluniau neilltuo, sy'n cefnogi'r amcan penodol yn 'Gwell Cymru'.
- Dylai'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried pob cais annog dull mwy agored o weithio wrth ddiwallu anghenion tai a chwrdd a'r galw am dai, a defnyddio llai ar eithriadau cynhwysfawr. Er hynny, mae'r modd y mae'r Mesur wedi'i eirio'n caniatáu i awdurdodau ystyried cysylltiadau lleol ac ymddygiad blaenorol wrth flaenoriaethu ceisiadau am dai, a byddant yn cadw'r hawl i gynnig tai yn unol â'u cynllun hwy. I bob pwrpas, bydd awdurdodau lleol o hyd yn gallu eithrio ymgeiswyr nad ydynt am roi tai iddynt.

**11.** Mae'r Comisiwn Digartrefedd wedi argymell cyhoeddi canllawiau i gefnogi dyletswyddau strategaethau digartrefedd lleol. Ar ôl ystyried safbwyntiau a fynegwyd gan y Pwyllgor ac yn y Cyfarfod Llawn, cynigir y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi canllawiau ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol. Byddai'r canllawiau hyn wedyn yn cael eu mabwysiadu a'u cyhoeddi o fewn y *Code of Guidance on Homelessness and Allocations*, a gaiff ei adolygu yn fuan yn 2002.

**CYDYMFFURFIO**

**11.** Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau i ystyried unrhyw fater sy'n berthnasol i'w swyddogaethau o dan a.40 Deddf Llywodraeth Cymru. O dan Adran 182 Deddf Tai 1996, gall

y Cynulliad roi canllawiau i awdurdodau lleol ar arfer eu cyfrifoldebau mewn perthynas â digartrefedd. Mae’r pwerau perthnasol o dan Deddf Tai 1996 wedi’u dirprwyo i Weinidog y Cynulliad.

12. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra neu briodoldeb.
13. Anfonwyd copi o’r cyflwyniad hwn i Swyddfa Gydymffurfio’r Cynulliad.

**GOBLYGIADAU ARIANNOL**

14. Awdurdodau lleol a sefydliadau eraill:

Bydd y gwaith o gynnal adolygiadau digartrefedd a pharatoi strategaethau’n golygu cost i awdurdodau lleol. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn darparu peth cymorth i gwrdd â gofynion y strategaethau.

**15.** Cynulliad Cenedlaethol:

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i’r Cynulliad yn y dyfodol agos, ar wahân i gostau gweinyddu y gellir eu cadw o fewn cyllideb gymeradwy’r Gyfarwyddiaeth Dai. Mae’n debyg y bydd mwy o ofynion ar y gyllideb dai pan ddaw anghenion gwasanaethau digartrefedd i’r amlwg drwy’r strategaethau.

**THEMÂU TRAWSBYNCIOL**

15. Bydd y Mesur yn darparu fframwaith newydd ar y lefel leol i barhau â’r agenda i fynd i’r afael â digartrefedd yng Nghymru. Dyma un o’r mathau mwyaf difrifol o ddieithrwch cymdeithasol, a bydd yn gymorth i fynd i’r afael a’r amrediad eang o broblemau cymdeithasol sy’n gysylltiedig â digartrefedd fel y’u nodwyd gan y Comisiwn Digartrefedd.

**Y Gangen Rheolaeth, y Digartref a Chynhaliaeth**

**Y Gyfarwyddiaeth Dai**

**Hydref 2001**